Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Llansteffan
Llansteffan
Sir Gaerfyrddin
SA33 5LN

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/12/2016**

## Cyd-destun

Lleolir yr ysgol ym mhentref Llanstephan ac fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Caerfyrddin. Mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardal gyfagos. Darpara addysg ar gyfer disgyblion rhwng 4 ac 11 mlwydd oed.

Mae 32 o ddisgyblion ar y gofrestr o fewn dau ddosbarth oed cymysg. Mae tua 12% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Daw tua 19% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir ethnig lleiafrifol. Mae'r ysgol yn nodi bod gan tua 28% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae ychydig iawn o ddisgyblion â datganiad o anghenion addysg arbennig.

Mae'r ysgol mewn partneriaeth anffurfiol gyda dwy ysgol arall gyfagos ac maent yn rhannu'r un pennaeth. Yn ystod yr arolygiad, roedd dau athro dros dro yn yr ysgol.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mawrth, 2010. Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers Medi, 2007.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Llansteffan yn 2016-2017 yw £4,569. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £9,689 a'r lleiafswm yw £3,083. Mae Ysgol Llansteffan yn y 15fed safle o'r 100 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu
- rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwrando'n astud ac yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau llafar
- rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen ac ysgrifennu
- medrau mathemategol rhan fwyaf y disgyblion yn gadarn
- ymddygiad ac agweddau at ddysgu bron pob un disgybl yn dda
- amrywiaeth o gyfleoedd da i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o'r dimensiwn Cymreig
- yr ysgol yn gymuned hapus a gofalgar sy'n rhoi pwyslais cryf iawn ar ddatblygu lles disgyblion

Fodd bynnag:

- mae diffyg geirfa a chystrawen chwithig yn cyfyngu ar allu disgyblion cyfnod allweddol 2 i ddatblygu eu syniadau ac i drafod llyfrau trwy gyfrwng y Gymraeg
- nid yw disgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud digon o gynnydd yn eu gallu i ysgrifennu'n estynedig yn y ddwy iaith
- mae cyfraddau presenoldeb yn is nag ydynt mewn ysgolion tebyg
- nid yw addysgu bob amser yn herio disgyblion
- nid yw athrawon yn gwneud defnydd da o ganfyddiadau'r broses asesu

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- gan y pennaeth ddarlun clir o gryfderau a gwendidau'r ysgol
- staff yn cydweithio'n agos fel tîm
- y llywodraethwyr yn gefnogol iawn i waith yr ysgol ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau
- yr ysgol yn rhoi sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol
- gan yr ysgol weithdrefnau hunanarfarnu addas
- nifer o bartneriaethau strategol da yn cyfoethogi a chynnal profiadau addysgol a lles disgyblion

Fodd bynnag:

- nid yw ffocws yr arweinyddiaeth bob amser yn ddigon cadarn ar adolygu cynnydd a monitro effaith gweithdrefnau gwelliant

- mae staff wedi dechrau rhannu cyfrifoldebau yn gymharol diweddar
- nid yw rôl y llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol wedi'i gwreiddio digon i'w galluogi i ddal yr ysgol i gyfrif yn llawn
- nid yw arweinwyr yn arfarnu cynnydd yn erbyn y dangosyddion llwyddiant yn y cynllun datblygu yn ystyrlon

## Argymhellion

A1 Codi safonau llafar, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg yng nghyfnod allweddol 2

A2 Gwella ansawdd yr addysgu a'r gyfundrefn asesu i sicrhau her i bob disgybl

A3 Cryfhau gweithdrefnau rheolaeth ac arweinyddiaeth ar bob lefel, gan gynnwys y corff llywodraethol

A4 Sicrhau bod gweithdrefnau hunanarfarnu effeithiol yn arwain at welliant

A5 Codi lefelau presenoldeb

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Ar fynediad i'r ysgol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau ar y lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n astud ac yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau llafar. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn trafod eu syniadau'n glir ac yn frwdfrydig gan ddefnyddio geirfa addas. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi ac yn dangos diddordeb yn eu gwaith. Mae'r mwyafrif yn cyfathrebu'n briodol yn y Gymraeg. Fodd bynnag, mae diffyg geirfa a chystrawen chwithig yn cyfyngu ar allu disgyblion i ddatblygu eu syniadau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen. Maent yn mwynhau trafod llyfrau ac yn dangos dealltwriaeth gadarn o'u deunyddiau darllen. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn darllen yn briodol yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan drafod cynnwys y llyfrau yn weddol hyderus. Fodd bynnag, mae diffyg hyder a phrinder geirfa yn cyfyngu ar allu disgyblion i drafod eu llyfrau. Wrth ymchwilio i destun arbennig, mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn cywain gwybodaeth o wahanol destunau yn llwyddiannus.

Mae llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn ysgrifennu'n annibynnol. Maent yn defnyddio medrau llythrennedd yn effeithiol ar draws y cwricwlwm ac yn atalnodi eu gwaith yn rheolaidd. Er enghraifft, ceir enghreifftiau da ar hanes Guto Ffowc ac ar y flwyddyn newydd yn Tseina. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn addas yn y ddwy iaith. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid ydynt yn gwneud digon o gynnydd yn eu gallu i ysgrifennu'n estynedig ar draws y pynciau eraill yn y ddwy iaith. Mae diffyg geirfa a gorddefnydd o daflenni gwaith yn cyfyngu ar allu'r mwyafrif i ymestyn eu doniau ysgrifenedig. Ar y cyfan, nid yw disgyblion yn cyflwyno eu gwaith yn daclus, yn bennaf oherwydd y taflenni gwaith yn eu llyfrau.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae gan ran fwyaf y disgyblion fedrau mathemategol cadarn. Erbyn diwedd y cyfnod, mae gan lawer afael sicr ar ffeithiau rhif ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i ddatrys problemau rhif yn eu gweithgareddau. Mae llawer yn cymhwyso eu dealltwriaeth o unedau mesur safonol ac ansafonol yn dda, er enghraifft wrth fesur cynhwysedd gwahanol offer. Mae'r rhan fwyaf yn casglu, cyflwyno a dadansoddi gwybodaeth syml wrth greu siart tali a llunio graff bar syml, er enghraifft ar wahanol gartrefi.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth ddefnyddiol o strategaethau rhifedd. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn adnabod y camau sydd eu hangen i ddatrys problemau ac yn datblygu strategaethau priodol yn gywir,

er enghraifft wrth gyfrifo cost ymweld â stadiwm chwaraeon. Maent yn casglu a chyflwyno gwybodaeth yn systematig a chywir ar ffurf tablau a graffiau wrth ymchwilio i gost cael criw i wneud ffilm o stori Gymraeg. Mae medrau mathemategol rhan fwyaf y disgyblion yn gadarn ac maent yn eu trosglwyddo'n bwrpasol i feysydd eraill ar draws y cwricwlwm.

Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn briodol ar draws y cwricwlwm. Maent yn defnyddio pecynnau TGCh i wneud cyflwyniadau addas o'u gwaith. Er enghraifft, gall rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen dynnu lluniau digidol i gofnodi tasgau. Gall disgyblion hŷn yng nghyfnod allweddol 2 gyfuno testun, addasu maint ffont ac ychwanegu ffotograff digidol wrth ysgrifennu am ymweliad 'ffoadur'. Mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel ac yn effeithiol i chwilio am wybodaeth. Fodd bynnag, ychydig iawn o ddisgyblion sy'n datblygu dealltwriaeth o sut i drin neu greu taenlenni. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn creu na defnyddio cronfeydd data i ddadansoddi data a dilyn trywyddion ymholi penodol.

Rhaid trin asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 gyda gofal oherwydd bod niferoedd bychan o ddisgyblion mewn grŵp blwyddyn yn medru effeithio ar berfformiad yr ysgol o un flwyddyn i'r llall.

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, o gymharu ag ysgolion tebyg ar y deilliant disgwyliedig, mae perfformiad y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol yn gyffredinol wedi bod islaw'r cyfartaledd. Ar y deilliant uwch, mae perfformiad wedi bod gan amlaf yn uwch na'r cyfartaledd.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad y disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig a'r lefel uwch mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth dros yr un cyfnod yn amrywiol, ac yn gyffredinol nid yw mor gryf â pherfformiad ysgolion tebyg mewn Cymraeg a mathemateg.

Nid oes patrwm amlwg o wahaniaeth rhwng cyflawniad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim o'u cymharu â'u cyfoedion. Mae disgyblion sy'n derbyn cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd addas. Nid yw disgyblion mwy galluog bob amser yn cyflawni cystal ag y gallent.

### Lles: Digonol

Mae bron bob un disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus i ofyn am gymorth os ydynt yn poeni. Maent yn ymateb yn gwrtais i'w gilydd ac i oedolion. Mae eu hymddygiad a'u hagweddau at ddysgu'n dda. Mae llawer o ddisgyblion yn gweithio'n annibynnol ar eu tasgau yn y dosbarthiadau.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini. Mae ganddynt agwedd gadarnhaol at ymarfer corff ac maent yn cymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau a chwaraeon i hyrwyddo iechyd a lles. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn dewis eu hoff ffrwythau ac yn cynnal siop ffrwythau yn ddyddiol yn yr ysgol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol a bywyd yn llwyddiannus trwy ystod o weithgareddau mewn clybiau ar ôl ysgol ac yn y gymuned. Mae aelodau o'r cyngor ysgol yn cyfrannu'n adeiladol at benderfyniadau sy'n ymwneud â'u hysgol. Mae'r holl ddisgyblion yn cael mewnbwn bob tymor i'r themâu maent yn eu dysgu. Mae'r disgyblion yn dangos balchder amlwg yn eu cyfraniad i wahanol agweddau o fywyd yr ysgol, fel trefnu gweithgareddau i godi arian i elusennau Macmillan a Comic Relief.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon. Mae lefelau presenoldeb wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf dros y pedair blynedd diwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau sy'n ymateb i ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae athrawon yn sicrhau bod y profiadau dysgu yn adeiladu'n effeithiol ar brofiadau blaenorol y disgyblion. Er enghraifft, yn y Cyfnod Sylfaen, mae cynlluniau yn dangos dilyniant medrau dros gyfnod ac mae hyn yn sicrhau bod yr athrawon yn medru gweld ar ddiwedd thema pa fedrau sydd angen rhoi sylw iddynt yn y thema nesaf.

Mae athrawon yn rhoi sylw priodol i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn eu cynlluniau gwaith. Mae gan yr ysgol gynllun gwaith TGCh sy'n datblygu'n dda ac yn cael ei ymgorffori yn y profiadau mae'r disgyblion yn eu derbyn. Ceir ystod o raglenni cymorth effeithiol ar gyfer y disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt gyda'u dysgu. Fodd bynnag, mae gorddefnydd o daflenni gwaith ar adegau yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i ymestyn eu doniau ysgrifenedig.

Darperir amrywiaeth o gyfleoedd da i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o'r dimensiwn Cymreig. Mae ymweliadau gan artistiaid a haneswyr lleol, fel sioe 'Yr Arglwydd Rhys' gan gwmni Mewn Cymeriad, yn atgyfnerthu gwybodaeth y disgyblion o'u hardal a'u hunaniaeth. Mae cyfleoedd helaeth i ddisgyblion ymweld â safleoedd pwysig, fel Castell Llansteffan, sy'n gysylltiedig â hanes yr ardal. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion ddealtwriaeth dda o'u cynefin.

Mae darpariaeth ar gyfer hybu dealltwriaeth disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy yn llwyddiannus. Mae gwaith y pwyllgor eco yn atgyfnerthu'r elfen hon yn effeithiol. Mae gan ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd arbed ynni, lleihau gwastraff ac ailgylchu. Mae cyfleoedd addas i ddisgyblion ddysgu am y byd ehangach drwy gasglu at wahanol elusennau, fel cronfa Achub y Plant a Chymorth Cristnogol, a chefnogi egwyddorion masnach deg.

**Addysgu: Digonol**

Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau diddorol sy'n ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion yn eu dysgu. Mae gan yr athrawon berthynas dda â'r disgyblion. Lle mae addysgu yn effeithiol yn y mwyafrif o sesiynau, mae holi medrus i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion, ac mae athrawon a chymorthyddion yn cydweithio'n dda i

sicrhau bod disgyblion yn cyflawni deilliannau priodol yn eu tasgau. Fodd bynnag, lle mae addysgu yn llai effeithiol, nid yw tasgau bob amser yn herio disgyblion yn llwyddiannus. Ar adegau, mae athrawon yn defnyddio gormod o daflenni gwaith sydd yn llesteirio ysgrifennu estynedig disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn gyffredinol, nid yw'r athrawon yn sicrhau bob amser bod disgyblion yn cyflwyno eu gwaith yn daclus.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer asesu a chofnodi cynnydd disgyblion. Mae'r ysgol yn datblygu cyfundrefn olrhain briodol i gasglu ac arfarnu cynnydd disgyblion. Fodd bynnag, nid yw athrawon ar hyn o bryd yn gwneud y defnydd gorau o ganfyddiadau'r broses i adnabod anghenion disgyblion a gosod targedau addas iddynt. Lle mae marcio ar ei orau, mae athrawon yn cynnig adborth defnyddiol i ddisgyblion i'w helpu i weld pa mor dda maent yn ei wneud a beth mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Ar adegau, mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd i ymateb i sylwadau'r athrawon. Mae trefniadau cychwynnol yn eu lle i ddisgyblion arfarnu eu gwaith a gwaith eu cyfoedion.

Mae rhieni yn derbyn gwybodaeth addas ar gynnydd a chyflawniad eu plant. Mae adroddiadau diwedd blwyddyn yn cynnwys sylwadau defnyddiol a thargedau i ddangos i rieni sut i helpu eu plant i wella eu gwaith.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar sy'n rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu lles disgyblion. Mae'r ysgol yn hyrwyddo a chefnogi iechyd a ffitrwydd disgyblion yn llwyddiannus ac mae ganddi bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith.

Mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu gwerthfawr sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol. Mae'r sesiynau addoli ar y cyd a'r cwriwlwm yn cynnig profiadau buddiol sydd yn cyfrannu at hyn.

Mae cysylltiadau adeiladol gyda gwasanaethau arbenigol allanol fel y gwasanaethau addysg, meddygol, cymdeithasol a swyddogion lles i sicrhau cymorth priodol i ddisgyblion, staff a rhieni. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi derbyn hyfforddiant gwerthfawr gan therapydd lleferedd yr adran iechyd a hefyd gan yr adran anghenion dysgu ychwanegol, sydd wedi galluogi staff i gefnogi disgyblion penodol o ddydd i ddydd.

Mae athrawon yn adnabod yn gynnar y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac yn darparu cymorth priodol. Er enghraifft, mae'r ysgol yn defnyddio data ac asesiadau'n addas i glustnodi digyblion sydd angen cymorth ychwanegol. Mae'r ysgol yn sicrhau bod rhieni a disgyblion yn cael eu cynnwys yn y broses o lunio rhaglenni unigol a bod adolygiadau'n cael eu cynnal yn rheolaidd. Er hyn, mae'r targedau sydd wedi eu nodi ar y cynlluniau addysg unigol yn weddol eang ar brydiau. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus, ofalgar a chyfeillgar lle caiff pob plentyn a'u rhieni eu croesawu a'u cefnogi. Mae polisïau a gweithdrefnau addas gan yr ysgol i atgyfnerthu dealltwriaeth disgyblion o hawliau cyfartal. Mae rheolau'r ysgol yn glir ac yn cael effaith bositif ar ddatblygiad personol a chymdeithasol y disgyblion. Mae gweithdrefnau effeithiol ar gyfer sicrhau nad oes yr un disgybl yn dioddef oherwydd anfantais.

Mae digon o adnoddau o ansawdd addas i hybu'r dysgu. Mae arddangosfeydd yn y dosbarthiadau a'r coridorau yn lliwgar ac yn dathlu gwaith a chyflawniadau'r disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r amgylchedd dysgu awyr agored yn cyfrannu'n dda at ddatblygu medrau cymdeithasol a chorfforol disgyblion. Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud defnydd helaeth o'r ardaloedd hyn ar gyfer chwarae a dysgu. Er enghraifft, maent yn dysgu dangos gofal am bobl eraill, creaduriaid byw a'r amgylchedd. Mae adeilad a thir yr ysgol yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan y pennaeth ddarlun clir o gryfderau a gwendidau'r ysgol. Mae ei harweinyddiaeth ofalgar wedi ei seilio ar les disgyblion a datblygu disgyblion i'w llawn botensial. Mae staff a llywodraethwyr yn rhannu'r weledigaeth hon. Oherwydd y newidiadau a'r cyfnod o ansefydlogrwydd yn y sefyllfa staffio, nid yw ffocws yr arweinyddiaeth wedi bod yn ddigon cadarn yn ddiweddar ar adolygu cynnydd a monitro effaith gweithdrefnau gwelliant. Serch hynny, mae arweinwyr wedi gosod strategaethau ar waith i godi safonau. Enghraifft dda o hyn yw'r modd mae'r ysgol wedi cyflwyno rhaglenni ymyrraeth effeithiol i godi safonau darllen Saesneg disgyblion bregus.

Mae gan bob aelod o'r staff swydd ddisgrifiadau cyfredol sy'n disgrifio cyfrifoldebau unigolion yn benodol. Mae staff yn cydweithio'n agos fel tîm ac yn ymgymryd â'u gwaith yn gydwybodol iawn. Serch hynny, megis dechrau rhannu cyfrifoldebau mae'r aelodau staff newydd ar hyn o bryd. Mae cyfarfodydd staff yn rheolaidd ac yn cynhyrchu pwyntiau gweithredu addas i godi safonau.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i waith yr ysgol, yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mae'r trefniadau diweddar i greu is-bwyllgor safonau i fonitro ansawdd y ddarpariaeth a'r addysgu yn atgyfnerthu gwybodaeth llywodraethwyr o fywyd pob dydd yr ysgol. Mae ychydig o lywodraethwyr yn ymweld â'r ysgol i ehangu eu dealltwriaeth o safonau ac ansawdd y ddarpariaeth, ond nid yw eu rôl fel cyfeillion beirniadol wedi gwreiddio'n llawn.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd priodol o ran cyflwyno mentrau sy'n bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae'r mentrau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgu'r rhan fwyaf o ddisgyblion, yn enwedig mewn rhifedd a safonau lles. Mae'r ysgol hefyd yn gweithredu'r Siarter Iaith i godi safonau iaith disgyblion. Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn gadarn ar waith ac mae'r ysgol yn rhoi sylw dyledus i weithgareddau ynglŷn ag amddifadedd disgyblion.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan yr ysgol weithdrefnau hunanarfarnu addas sy'n canolbwyntio ar godi safonau. Mae arweinwyr yn defnyddio ystod o ffynonellau tystiolaeth uniongyrchol yn briodol i gasglu tystiolaeth berthnasol ac i grynhoi barn disgyblion a rhieni. Nid yw'r adroddiadau monitro presennol bob amser yn ddigon arfarnol ac yn ffocysu'n glir ar y meysydd sydd angen eu gwella.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn cyflwyno darlun addas o berfformiad yr ysgol, ei chryfderau yn ogystal â rhai agweddau sydd angen eu gwella. Mae'r adroddiad yn cynnwys dadansoddiad addas o ddata, ond ar adegau mae'n rhy ddisgrifiadol. O ganlyniad, nid yw'r ddogfen yn canolbwyntio bob amser ar fesur effaith gwaith yr ysgol.

Mae cyswllt priodol rhwng deilliannau'r ddogfen hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun yn nodi nifer addas o flaenoriaethau gwella ac mae'r cyfrifoldebau gweithredu wedi'u dyrannu'n briodol. Fodd bynnag, oherwydd y cyfnod o ansefydlogrwydd yn y sefyllfa staffio, nid yw'r ysgol ar hyn o bryd wedi arfarnu cynnydd yn erbyn y dangosyddion llwyddiant yn ystyrlon.

Mae tystiolaeth bod cynllunio bwriadus wedi arwain at welliannau, yn enwedig wrth ddatblygu'r Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus ac wrth gyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol nifer o bartneriaethau strategol da sy'n cyfoethogi a chynnal profiadau addysgol a lles disgyblion.

Mae'r gymdeithas rhieni wedi codi symiau sylweddol o arian i wella'r cyfleusterau dysgu ac i ychwanegu at adnoddau technolegol. Mae llawer o rieni yn rhannu eu harbenigedd mewn gwahanol feysydd; er enghraifft, daw rhieni yn gyson i gynorthwyo yn yr ysgol ac i gefnogi disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 gyda'u medrau darllen. Caiff y rhain effaith gadarnhaol ar godi safonau ac ymestyn medrau'r disgyblion.

Mae partneriaeth dda gyda'r gymuned leol. Gwneir defnydd effeithiol o fudiadau fel y gymdeithas hanes i ehangu gorwelion y disgyblion. Mae'r bartneriaeth glos gyda'r eglwys yn cynnig cyfleoedd buddiol i'r disgyblion ymestyn eu medrau cyfathrebu a chymdeithasol yn llwyddiannus, er enghraifft drwy gymryd rhan mewn gwasanaethau adeg y cynhaeaf ac amser Nadolig.

Ceir cynllunio addas gyda'r ysgol feithrin gyfagos i sicrhau cefnogaeth dda i ddisgyblion newydd. Mae'r trefniadau pontio â'r ysgolion cyfun lleol yn sicrhau bod disgyblion yn hyderus wrth symud i'r cam nesaf yn eu haddysg. Mae cysylltiadau agos gydag ysgol lleol arall, ac mae gwersi ar y cyd mewn llythrennedd a rhifedd wedi codi safonau yng nghyfnod allweddol .

Cydweithia'r ysgol yn dda gyda cholegau lleol i ddarparu lleoliad buddiol i fyfyrwyr sy'n hyfforddi i fod yn athrawon a chymorthyddion. Ceir cydweithio a chynllunio effeithiol rhwng yr ysgol ac ysgol arall yn yr ardal sy'n cael effaith gadarnhaol ar godi safonau dysgu ac addysgu.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon â chymwysterau priodol i gyflwyno'r cwricwlwm. Gwna'r ysgol ddefnydd da o gymorthyddion dysgu ar gyfer y disgyblion hynny y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae amrediad digonol o adnoddau yn cael eu defnyddio'n bwrpasol i gefnogi'r dysgu.

Mae'r ysgol yn ymateb i'r gofyniad statudol ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon. O ganlyniad i'r broses rheoli perfformiad, mae staff yn derbyn hyfforddiant pwrpasol sy'n ymateb i flaenoriaethau'r ysgol ac i'w hanghenion personol. Fodd bynnag, nid yw cymorthyddion yn rhan o'r broses ar hyn o bryd. Mae'r ysgol yn dechrau datblygu rhwydwaith o arfer broffesiynol i ddatblygu rhifedd ar draws y cwricwlwm, ond mae'n rhy gynnar i fesur effaith ar y safonau.

Er y niferoedd bychain o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, mae'r ysgol yn gwneud defnydd addas o'r grant amddifadedd i wella deilliannau llythrennedd ac agweddau o'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli'r adeiladau, yr adnoddau a'r gyllideb yn ofalus. Mae cyswllt addas rhwng y gwariant a chynlluniau'r ysgol.

O ystyried y safonau mae disgyblion yn eu cyflawni, mae'r ysgol yn rhoi gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6692166 - YSGOL LLANSTEFFAN**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 34 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 10.6 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 8 | 5 | 5 | 4 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 87.5 | 80.0 | 80.0 | 75.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 4 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 1 | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 0.0 | * | * | * |
| Chwartel meincnod | 4 | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | * | * | * |
| Chwartel meincnod | 4 | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 5 | 5 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 80.0 | 80.0 | 75.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 57.1 | 40.0 | 40.0 | 25.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 2 | 3 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | 5 | 5 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 87.5 | 80.0 | 100.0 | 75.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 37.5 | 40.0 | 20.0 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 4 | 1 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | 5 | 5 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 87.5 | 80.0 | 100.0 | 75.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 37.5 | 60.0 | 80.0 | 75.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 1 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6692166 - YSGOL LLANSTEFFAN**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 34 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 10.6 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 8 | 3 | 4 | 6 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 100.0 | 66.7 | 100.0 | 66.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 1 | 4 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | 3 | 4 | 6 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 50.0 | 66.7 | 100.0 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | 3 | 4 | 6 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 66.7 | 100.0 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 37.5 | 33.3 | 25.0 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 4 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | 3 | 4 | 6 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 66.7 | 100.0 | 66.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 50.0 | 33.3 | 100.0 | 16.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 1 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | 3 | 4 | 6 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 62.5 | 66.7 | 100.0 | 16.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 20 | 20<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 20 | 20<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 20 | 20<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 20 | 20<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 20 | 20<br>100% | 0<br>0% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 20 | 19<br>95% | 1<br>5% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 20 | 20<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 20 | 20<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 20 | 20<br>100% | 0<br>0% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 20 | 20<br>100% | 0<br>0% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 20 | 20<br>100% | 0<br>0% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 20 | 20<br>100% | 0<br>0% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

**Ymateb i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| David Gareth Evans | Arolygydd Cofnodol |
| David Kenneth Davies | Arolygydd Tîm |
| Deris Davies Williams | Arolygydd Lleyg |
| Alwyn Ward | Arolygydd Cymheiriaid |
| Trefina Jones | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.